**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 29 HYDREF 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd); Frank Cuthbert; Bethan Price; Ginger Wiegand; Dianne Bevan.

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Ellie Chapman (Swyddog Polisi Iechyd Democrataidd).

**Ymddiheuriadau:** Frances Duffy; Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Rhydian Fitter (Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu).

**Amser Dechrau: 10:34**
**Amser Gorffen: 11:40**

**1. Datganiadau Buddiannau**

1.1. Dim

**2. Briff gan y Cadeirydd**

2.1. Dywedodd y Cadeirydd fod Karen Jones wedi cael ei phenodi'n Gadeirydd newydd.

2.2. Dywedodd y Cadeirydd os hoffai Comisiynwyr ymestyn eu cyfnodau y dylent roi gwybod i'r Prif Weithredwr.

2.3. Soniodd y Cadeirydd am y cyfarfod â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a fydd yn derbyn sylw o dan Faterion sy'n Codi.

**3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025**

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

**4. Materion sy'n Codi**

4.1. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol, hefyd:

4.2. **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 18 Medi 2025 a 21 Hydref 2025.

4.3. **(Mater 2)** Yn dilyn cyfarfod â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gwnaed gwaith ychwanegol i fireinio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn dilyn mân ddiwygiadau, **cymeradwywyd** y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

4.4. **(Mater 3)** Gwnaed diwygiadau i'r cynllun ymchwil yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod mis Awst. Mae'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) wedi cymeradwyo'r elfen ymchwil sy'n ymwneud â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP). **Cymeradwywyd** y cynllun ymchwil.

4.5. **(Mater 4)** Mae gwaith wedi bod yn parhau ar y Cynllun Corfforaethol. Bydd drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr.

4.6. **(Mater 5)**

Recriwtio Cadeirydd
Mae'r broses recriwtio Cadeirydd wedi'i chwblhau, bellach.

Recriwtio Cymorth Tîm
Bydd rhestr fer yn cael ei llunio ar 23 Hydref a bwriedir cynnal cyfweliadau o fewn y pythefnos nesaf.

Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid
Mae Beaumans wedi cwblhau'r broses Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi (JEGS) ac mae'r rôl wedi cael ei graddio ar lefel Uwch-swyddog Gweithredol. Mae'r rôl wedi cael ei hysbysebu ar Swyddi'r Gwasanaeth Sifil ac ar wefan Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA).

4.7 **(Mater 6) Cymeradwywyd** y Cynllun Gweithredol ac fe'i cyflwynir i'r Is-adran Noddi.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Hydref 2025 gan Gadeirydd y BRhE ac fe'i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** bod llawer wedi mynychu'r ddau weithdy yn Llandudno a Chaerdydd a bod yr adborth yn gadarnhaol, at ei gilydd.

5.3. **Nodwyd** bod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r set derfynol o gyfarwyddiadau ar ôl ymgynghori â Swyddogion Canlyniadau a'r Comisiwn Etholiadol ac

fe’u hanfonwyd at Swyddogion Canlyniadau Etholaethol drwy e-bost ar 24 Hydref.

5.4. **Nodwyd** y bydd cyflenwr y platfform, sef StormID, yn rhoi cyflwyniad ddydd Iau i drafod eu canfyddiadau o’r Cam Darganfod.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd y diweddariad ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ar lafar.

6.2. Mae’r Adroddiad Blynyddol Drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd a derbyniwyd 2 gynrychiolaeth hyd yma. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi talu am hysbysebu er mwyn ceisio derbyn mwy o safbwyntiau gan y cyhoedd.

## 7. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

7.1. Rhoddwyd y diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o dan Eitem 11.

## 8. Adroddiad Cynnydd Arolygon

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 24 Medi 2025 gan y Pennaeth Arolygon.

8.2. **Nodwyd** bod Gorchymyn Rhondda Cynon Taf wedi cael ei wneud a’i gyhoeddi ar 21 Hydref ac y daw’r newidiadau i rym yn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.

8.3. **Cymeradwywyd** y Gorchymyn drafft ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac fe’i cyhoeddir yn ystod yr wythnosau nesaf.

8.4. **Nodwyd** nad oedd argymhellion terfynol Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod y cyngor llawn.

8.5. **Nodwyd** bod Torfaen wedi cytuno ar yr argymhellion terfynol ac y bydd yn eu cyflwyno i’r Comisiwn ar ôl iddynt gael eu cyfieithu. Fe’u cyflwynir i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Arolygon.

8.6. **Nodwyd** bod cynigion drafft Caerffili wedi cael eu cyhoeddi ddydd Llun ac y bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 7 Rhagfyr.

## 9. Y Gofrestr Risgiau

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 20 Hydref gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf, **cytunwyd** ar y gofrestr.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb 2025-26

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 21 Hydref 2025 gan y Rheolwr Cyllid ac fe’i **nodwyd**.

10.2. **Nodwyd** bod tanwariant sylweddol a oedd yn deillio’n bennaf o £222k ychwanegol o gyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau Yswiriant Gwladol uwch ar gyfer 2025-26. Yn ogystal, roedd tanwariant amcangyfrifedig yn y gyllideb ar wahân ar gyfer y WEIP a chost y System Rheoli Etholiadol (EMS).

10.3. **Nodwyd** y bydd cyllideb newydd wedi’i diweddaru i’w hadolygu fis nesaf ynghyd â ffigur arfaethedig ar gyfer cyllid a allai gael ei ildio’n ôl i Lywodraeth Cymru.

## 11. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Medi 2025

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 20 Hydref 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Trafodwyd llunio adroddiad drafft ar gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a’i gylchredeg i’r aelodau drwy e-bost petai cyfnod hir cyn y gellid cyflwyno’r adroddiad ffurfiol i gyfarfod nesaf y Comisiwn i’w nodi.

## 12. Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Drafft

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 21 Hydref 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. Trafodwyd rhannu hyn gyda’r archwilwyr mewnol i weld a oes ganddynt unrhyw sylwadau.

12.3. **Cytunodd** y Bwrdd ar y ddogfen ar yr amod y gellir ei diweddaru â’r teitl swydd newydd pan fydd yr Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid newydd yn dechrau.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1 **Nododd** y Comisiwn y calendr.

13.1 **Nodwyd** y bydd y Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, ac y bydd y dyddiad yn cael ei gadarnhau.

## 14. Unrhyw Fater Arall

14.1. **Nodwyd** y bydd cyfarfod mis Tachwedd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb.

14.2. **Nodwyd** y bydd gan y Comisiwn stondin yn y gynhadledd ‘Mae’r Senedd yn Newid’ yn y Senedd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Tachwedd 2025**